

At: Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor
Craffu Perfformiad

Dyddiad: 19 Medi 2018

Rhif Union: 01824 712554

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD, DYDD IAU, 27 MEDI 2018 am 10.00 am yn YSTAFELL BWYLLGOR 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN.**

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

Cynhelir sesiwn frifio ar gyfer aelodau am 9.15am, yn union o flaen y prif gyfarfod. Taer erfynnir ar i aelodau wneud pob ymdrech i fynychu'r sesiwn hon.

AGENDA

RHAN 1 – ESTYNNIR GWAHODDIAD I'R WASG AC AELODAU'R CYHOEDD FYNYCHU'R RHAN YMA O'R CYFARFOD

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGAN CYSYLLTIAD (Tudalennau 5 - 6)

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu yn y busnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYD FEL Y CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

- 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 7 - 20)
Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd ar 19 Gorffennaf 2018 (copi ynghlwm).

- 5 COFRESTR RISG GORFFORAETHOL** (Tudalennau 21 - 40)
Ystyried y fersiwn ddiweddaraf o Gofrestr Risg Gorfforaethol y Cyngor.

10.05am – 10.45am

Egwyl – 10.45am - 11:00am

- 6 DANGOSFWRDD YMDRECH CWSMERIAID** (Tudalennau 41 - 48)
Monitro'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â datblygu'r Dangosfwrdd Ymdrech Cwsmeriaid a'r ymateb i'r system teleffoni newydd.

11.00am – 11.45am

- 7 RHAGLEN WAITH CRAFFU** (Tudalennau 49 - 68)
Ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Craffu (copi wedi'i atodi) yn gofyn am adolygiad o raglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor ac yn diweddarau aelodau ar faterion perthnasol.

11.45am – 12.00pm

- 8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU**
Derbyn unrhyw ddiweddariadau gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar Fyrddau a Grwpiau amrywiol y Cyngor.

12.00 p.m. – 12.05 p.m.

AELODAETH

Y Cynghorwyr

Y Cynghorydd Huw Jones (Cadeirydd)

Y Cynghorydd Hugh Carson Irving (Is-Gadeirydd)

Ellie Chard

Ann Davies

Rachel Flynn

Martyn Holland

Geraint Lloyd-Williams

Bob Murray

Arwel Roberts

David Williams

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth

Y Wasg a'r Llyfrgelloedd

Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,
(enw)

*Aelod /Aelod cyfetholedig o
(*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

YN CADARNHAU fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
(*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(Gweler y nodyn isod)*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

LOCAL GOVERNMENT ACT 2000

Code of Conduct for Members

DISCLOSURE AND REGISTRATION OF INTERESTS

I, *(name)*

a *member/co-opted member of
*(*please delete as appropriate)*

Denbighshire County Council

CONFIRM that I have declared a ***personal / personal and prejudicial** interest not previously declared in accordance with the provisions of Part III of the Council's Code of Conduct for Members, in respect of the following:-

*(*please delete as appropriate)*

Date of Disclosure:

Committee *(please specify)*:

Agenda Item No.

Subject Matter:

Nature of Interest:

*(See the note below)**

Signed

Date

*Note: Please provide sufficient detail e.g. 'I am the owner of land adjacent to the application for planning permission made by Mr Jones', or 'My husband / wife is an employee of the company which has made an application for financial assistance'.

PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD

Minutes of a meeting of the Pwyllgor Craffu Perfformiad held in SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN on Dydd Iau, 19 Gorffennaf 2018 at 10.00 am.

PRESENT

Y Cynghorwyr Ellie Chard, Ann Davies, Rachel Flynn, Martyn Holland, Hugh Irving (Is-gadeirydd), Huw Jones (Cadeirydd), Geraint Lloyd-Williams, Bob Murray ac Arwel Roberts

Aeth yr Aelodau Arweiniol, y Cynghorwyr Brian Jones a Julian Thompson-Hill ar gais y Pwyllgor.

Sylwedyddion – Y Cynghorwyr Mabon ap Gwynfor, Meirick Lloyd Davies, Graham Timms, Huw Williams ac Emrys Wynne

HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a'r Parth Cyhoeddus (GB), Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau (NS), Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol (TW), Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Cymunedol (PG), Rheolwr Adain – Rheoli Priffyrdd (TT), Rheolwr Gwasanaeth Masnachol, Cefndy (SR), Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol (NK), Prif Reolwr – Gwasanaethau Cefnogi (AL), Cydlynnydd Craffu (RE), Gweinyddwr Pwyllgorau (SLW)

Dewi Rowlands – Pennaeth Cynllunio Cludiant Llywodraeth Cymru

Roedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a'r Parth Cyhoeddus, Graham Boase, yn bresennol fel dirprwy ar gyfer y Prif Weithredwr, Judith Greenhalgh, a oedd yn methu â dod i'r cyfarfod.

1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr David Williams a Bobby Feeley (Aelod Arweiniol dros Les ac Annibyniaeth).

Derbyniwyd ymddiheuriadau hefyd gan y Prif Weithredwr

2 DATGANIADAU O GYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd cysylltiad.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Dim eitemau bryd.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd ar 7 Mehefin 2018.

Materion yn Codi:

Tudalen 6 – Eitem 6 – Cadarnhaodd y Cadeirydd, y Cyngorydd Huw Jones, ei fod wedi mynd i'r cyfarfod yng Nghyngor Sir y Fflint, lle'r oedd cynrychiolwyr o Kingdom yn bresennol. Roedd adroddiad pellach i'w gyflwyno yng nghyfarfod y Cabinet a oedd i'w gynnal ym mis Medi. Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai'n mynychu i ddiweddarau aelodau'r Cabinet yn dilyn y cyfarfod yn Sir y Fflint.

Gofynnodd y Cyngorydd Arwel Roberts am nodi ei fod yn siomedig iawn nad oedd Kingdom wedi dod i'r cyfarfod Craffu.

PENDERFYNWYD – y dylid, yn amodol ar yr uchod, derbyn a chymeradwyo Cofnodion y cyfarfod Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd 7 Mehefin 2018 fel cofnod cywir.

5 DATBLYGU STRATEGAETH CYNNAL A CHADW PRIFFYRDD

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Briffyrdd, Cynllunio a Chludiant Cynaliadwy adroddiad y Rheolwr Priffyrdd, Asedau a Risg (a gylchredwyd yn flaenorol). Roedd hwn yn adroddiad dilynol i'r un a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn Rhagfyr 2017 am Strategaeth Cynnal a Chadw Priffyrdd y Sir.

Ar ddiwedd y drafodaeth am y Strategaeth yng nghyfarfod Rhagfyr 2017, rhoddodd y Pwyllgor wahoddiad i Ysgrifennydd Cabinet Economi a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cymru, i ddod i gyfarfod yn y dyfodol o'r Pwyllgor, i drafod cyllid cyfalaf ar gyfer prosiectau priffyrdd. Yn anffodus, nid oedd Ysgrifennydd y Cabinet yn gallu derbyn y gwahoddiad, ond fe roddodd gynnig bod un o'i swyddogion yn cael gwahoddiad i drafod y mater gyda'r pwyllgor. Roedd Mr Dewi Rowlands, Pennaeth Cynllunio Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru wedi derbyn gwahoddiad y Pwyllgor, a chroesawyd ef i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Mynegodd yr Aelod Arweiniol ei ddiolch i adran Mr Rowlands a Llywodraeth Cymru am ddyfarnu'r Grant Ailwampio Ffyrdd gwerth £1.2m i Sir Ddinbych, yn ogystal â £100K ychwanegol i helpu i roi sylw i rai o'r gwaith cynnal a chadw ychwanegol sy'n ofynnol ar ffyrdd y sir yn dilyn tywydd garw difrifol.

Atgoffodd Pennaeth y Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol y Pwyllgor, bod priffyrdd wedi bod yn un o flaenoriaethau corfforaethol Cynllun Corfforaethol 2012-17. Roedd hyn wedi arwain at swm mawr o fuddsoddiad yn cael ei wneud yn rhwydwaith ffyrdd y sir, a oedd wedi gweld cyflwr y ffyrdd yn gwella'n fawr. Yr her yn ystod tymor cyfredol y Cyngor fyddai buddsoddi adnoddau ariannol sy'n parhau i leihau, a hynny'n ddoeth, yn y rhwydwaith priffyrdd, mewn ymgais i sicrhau na chollwyd buddion y buddsoddiad blaenorol, ac nad oedd ffyrdd eraill yn dirywio i bwynt lle nad oedd modd eu defnyddio mwyach. Cadarnhaodd bod derbyn y £1.2m ychwanegol o'r Grant Ailwampio Ffyrdd wedi'i werthfawrogi'n fawr, ac wedi'i glustnodi ar gyfer y pedwar prosiect a nodwyd yn yr adroddiad. Fodd bynnag,

oherwydd y costau sy'n gysylltiedig â phrosiectau cynnal a chadw ffyrdd tra byddai'r pedwar cynllun a restrir yn yr adroddiad yn cael eu gwireddu, roedd nifer o gynlluniau eraill na fyddai'n elwa o'r grant untro hwn.

Diolchodd Pennaeth Cynllunio Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru y Pwyllgor am y gwahoddiad i ddod i'r cyfarfod i drafod materion cyllid cyfalaf priffyrdd, ac fe fynegodd ymddiheuriadau Ysgrifennydd y Cabinet nad oedd yn gallu bod yn bresennol. Yn ystod ei gyflwyniad, amlinellodd weledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y rhwydwaith priffyrdd yng Nghymru, gan bwysleisio ei fod yn bwysig myfyrio ynghylch beth oedd wedi digwydd yn y gorffennol i ddeall y cyd-destun o beth a argymhellwyd ar gyfer y dyfodol. Roedd arolwg diweddar Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi dangos yn gadarnhaol bod graddfa rhwydwaith priffyrdd Cymru mewn cyflwr gwael wedi bod yn lleihau flwyddyn ar flwyddyn rhwng 2011/12 a 2016/17, sef y data mwyaf diweddar a oedd ar gael. Roedd cydnabyddiaeth o fewn tystiolaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru bod yr hwb ariannol i awdurdodau lleol gan Lywodraeth Cymru wedi cyfrannu at wella ansawdd y rhwydwaith priffyrdd yn genedlaethol. Eglurodd fod Menter Benthycia Llywodraeth Leol, a oedd yn gweithredu am y tair blynedd ariannol rhwng 2012/13 a 2014/15 yn cynrychioli dyraniad ychwanegol o fewn Grant Cynnal Refeniw pob awdurdod lleol, a oedd yn cynyddu potensial y cynghorau i fenthycia arian i ariannu prosiectau cyfalaf. Pwysleisiwyd nad oedd y fenter hon wedi dod i ben, ond bu newid mewn dull gyda Llywodraeth Cymru nawr yn gwasanaethu costau benthycia awdurdodau lleol, a byddai'n parhau i wneud hynny tan y flwyddyn ariannol 2034/35, yn amodol ar gynghorau'n rhoi ymrwymiad i wella eu hasedau priffyrdd.

O ran y Grant Ailwampio Ffyrdd o £1.2m, a'r arian ychwanegol a ddyrannwyd i roi sylw i waith cynnal a chadw ychwanegol, yn dilyn y tywydd garw difrifol, roedd Llywodraeth Cymru'n disgwyl i awdurdodau lleol adrodd iddi ym Mawrth 2019, ynghylch effaith yr arian a wariwyd yn eu hardal. Wedi hynny, roedd awdurdodau lleol yn adrodd i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn ar reoli eu rhwydwaith priffyrdd ac effaith eu buddsoddiad yn y rhwydwaith. Nid Sir Ddinbych yn unig oedd ag ôl-groniad o fuddsoddiad a oedd yn ofynnol yn ei rhwydwaith priffyrdd, gan fod pob awdurdod lleol yng Nghymru ag ôl-groniad, ynghyd â Llywodraeth Cymru ei hun. Roedd Llywodraeth Cymru wedi adrodd gerbron Pwyllgor Economi, Isadeiledd a Sgiliau'r Cynulliad yn ddiweddar, ei bod ag ôl-groniad o waith cynnal a chadw yn dod i swm o £83m ar ei rhwydwaith priffyrdd, traffyrdd a chefnffyrdd, gyda gwerth £39m o fuddsoddiad ychwanegol yn ofynnol ar ei strwythurau rhwydwaith. Yr her i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol fel ei gilydd oedd sut i reoli'r risg o ddirywiad er mwyn peidio â cholli buddion y buddsoddiad a wnaed eisoes yn y rhwydwaith. Gyda'r bwriad o roi sylw i'r heriau hyn, roedd cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru wedi cytuno'n ddiweddar i gydweithio, gyda'r bwriad o gyrchu'r dystiolaeth gywir i ddangos yr angen am fuddsoddiad mewn prosiectau rhwydwaith penodol. Byddai cynhyrchu tystiolaeth gadarn a chyson yn allweddol i awdurdodau priffyrdd sy'n cyflwyno cynigion am arian gan Lywodraeth Cymru, i atgyfnerthu eu ceisiadau wrth gystadlu am gyllid cyhoeddus prin yn erbyn cyrff cyhoeddus eraill, gyda blaenoriaethau sydd yr un mor bwysig. Byddai angen datblygu mesurau perfformiad cyson a realistig er mwyn cefnogi'r ddarpariaeth o rwydwaith cyflwr sefydlog, a fyddai'n cynnal gwerth ei ased wrth alinio ag amcanion a gwerthoedd tymor hir Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Rhoddodd cynrychiolydd Llywodraeth Cymru wybod i'r Pwyllgor ei fod wedi cael argraff dda o'r hyn a welodd hyd yn hyn o Gynllun Rheoli Asedau Priffyrdd Sir Ddinbych. Roedd o'r farn bod y ddogfen bwysig hon yn cynnwys pob ased yn ymwneud â rhwydwaith priffyrdd y sir, yn cynnwys cerbytyffyrdd, pontydd, draeniau, llwybrau troed, arwyddion ac ati, ac wedi mabwysiadu dull cyfannol tuag at eu gwaith cynnal a chadw, er budd y rhwydwaith cyfan. Byddai'r Cynllun hwn yn ddogfen amhrisiadwy ar gyfer y grŵp ledled Cymru, sy'n edrych ar ddatblygu sail dystiolaeth i gefnogi cynigion ariannu rhwydwaith priffyrdd y dyfodol. Byddai'r manylion yn y Cynllun ac unrhyw rwystrau a nodwyd fel rhan o weithrediad y cynllun yn cynorthwyo'r grŵp Cymru gyfan gyda'i waith o ddatblygu pecyn gwaith i gynorthwyo rhanddeiliaid i lunio cynigion cadarn yn seiliedig ar dystiolaeth. Byddai rhannu arferion gorau ar draws Cymru o fudd i bawb. Roedd hefyd yn hapus gydag Adroddiad Statws ac Opsiynau Blynyddol y Cyngor, ac i weld bod gwariant cyfalaf a referniw yn unol ag elfen cynnal a chadw priffyrdd cenedlaethol yr Asesiad Gwario Safonol. Roedd perfformiad Sir Ddinbych i gynnal ei ffyrdd 'A' yn mynd rhagddo'n dda, tra bod ffyrdd 'B' a heb eu dosbarthu'n foddhaol. Fodd bynnag, nid oedd perfformiad mewn perthynas â ffyrdd 'C' yn dda. Roedd y darlun cyffredinol hefyd yn gadarnhaol h.y. roedd hyd y rhwydwaith mewn cyflwr gwael cyffredinol yn lleihau. Fodd bynnag, roedd yna ffyrdd nawr a nodwyd ar hyn o bryd fel 'ambr', a oedd mewn perygl o symud i statws 'coch' heb fuddsoddiad yn y dyfodol agos. Byddai penderfyniad i fuddsoddi yn y ffyrdd hyn yn ystod cam cynnar yn ddull 'gwario i arbed', gan y byddai'n lliniaru yn erbyn rhagor o ddirywiad, a'r posibilrwydd o 'gollu' rhannau o'r rhwydwaith am byth, a'i effaith o ganlyniad ar yr economi ac ar gymunedau. Ni allai unrhyw awdurdod priffyrdd yng Nghymru fforddio i ganiatáu gwerth ei asedau i leihau. Roedd sefydlogrwydd mewn gwerth asedau'n allweddol os oedd yr economi am ffynnu er budd pawb, a dyna'r rheswm dros bwysigrwydd yr holl awdurdodau'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Syrffewyr Sirol Cymru, i wireddu'r ffordd fwyaf effeithiol o ddefnyddio arian y cyhoedd i reoli'r rhwydwaith priffyrdd ar gyfer y dyfodol.

Gan ymateb i gwestiynau aelodau, fe wnaeth cynrychiolydd Llywodraeth Cymru, yr Aelod Arweiniol dros Briffyrdd, Cynllunio a Thrafnidiaeth Cynaliadwy, Pennaeth y Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol, a'r Rheolwr Priffyrdd, Asedau a Risg:

- roi gwybod mai cyfrifoldeb y Cyngor oedd blaenoriaethu gwariant referniw ar ei rwydwaith, penderfynwyd ar hyn yn seiliedig ar broses blaenoriaethau asesiad risg. Fodd bynnag, tra bod cyllid cludiant wedi gostwng yn sylweddol mewn blynyddoedd diweddar, roedd rhywfaint o arian grant ar gael h.y. ar draws Cymru, roedd £4m ar gyfer cefnogi cludiant cyhoeddus dros bedair blynedd a £60m ar gyfer gwella cerdded a beicio ar lwybrau dynodedig dros gyfnod o dair blynedd, yn ddibynnol ar y meini prawf penodol yn cael eu bodloni. Fe wnaeth y cynrychiolydd o Lywodraeth Cymru drafod gyda'r Aelod Arweiniol a swyddogion a fyddai prosiect A547 Abergele Straights yn bodloni unrhyw rai o'r meini prawf penodol;
- rhoddwyd gwybod i aelodau bod gan y Cyngor strategaeth gyda phalmentydd is ar draws y sir. Roedd gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i lunio rhestr o leoliadau ar draws y sir, lle'r oedd angen gosod palmentydd is. Roedd rhestr debyg o gynlluniau draenio bach ar draws y sir hefyd yn

cael ei llunio. Byddai'r ddwy restr yn cael eu rhoi i'r contractwr penodol yn y dyfodol agos iddynt ddechrau gweithio ar y ddau brosiect;

- cadarnhawyd, er nad oedd unrhyw gyfeiriad wedi'i gynnwys yn Atodiad A i'r adroddiad 'Adolygiad o gyflwr ffyrdd Sir Ddinbych ers 2011/12' i ffyrdd 'B' yn y sir, roeddent yn sicr yn cael eu cynnwys yn rhaglen cynnal a chadw priffyrdd y Sir ar gyfer 2018/19;
- cadarnhawyd bod arolwg cyflwr ffyrdd 'A' a 'B' yn arolwg annibynnol a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, a oedd yn cynnwys archwiliad techneg nad oedd yn fewnwithiol, o'r enw Scanner, a wnaed yn ystod yr haf i benderfynu ar gyfran y rhwydwaith a ystyriwyd mewn cyflwr gwael;
- rhoddwyd gwybod bod Llywodraeth Cymru wedi gwario £155m yn 2016/17 ar gynnal a chadw'r rhwydwaith priffyrdd;
- cadarnhawyd bod Llywodraeth Cymru'n archwilio deunyddiau gwahanol, yn cynnwys cynnyrch wedi'u hailgylchu, wrth gomisiynu gwaith cynnal a chadw priffyrdd, ac wedi cymryd rhan mewn nifer o gynlluniau peilot i brofi cynnyrch o'r fath. Fodd bynnag, roedd priffyrdd dim ond yn un rhan o'r trefniadau isadeiledd a chlodiant, a dyma'r rheswm dros yr angen i archwilio ffyrdd gwell o weithio a theithio. Gyda'r bwriad o gyfrannu at y rhaglen dad-garboneiddio, gan wneud defnydd effeithiol o dechnoleg a dyfeisio atebion teithio cynaliadwy, roedd Llywodraeth Cymru'n gweithio'n agos gyda swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru i ddatblygu strategaeth teithio cynaliadwy. Roedd data eisoes ar gael ar werth economaidd cysylltiadau cludiant effeithiol, a rhwydwaith priffyrdd wedi'i gynnal yn dda. Roedd gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ar y cyd â Phrifysgol Bangor i ddeall yn well y gwerth cymdeithasol a diwylliannol o gael cysylltiadau cludiant o ansawdd da mewn perthynas â chymunedau cysylltiedig. Roedd Swyddfa Cabinet y DU wedi cyhoeddi dogfen o'r enw 'Canllawiau ar Elw Cymdeithasol ar Fuddsoddiad' ar y pwnc penodol hwn;
- rhoddwyd gwybod, mewn perthynas â gwireddu'r gwerth gorau o ran benthyca ar gyfer buddsoddiad cyfalaf priffyrdd, roedd y Cyngor yn cael ei arwain gan arbenigedd y Swyddogion Cyllid. O ran benthyca ychwanegol i ariannu'r gwariant refeniw ar waith cynnal a chadw priffyrdd, roedd y Cyngor yn cael ei lywodraethu gan reolau benthyca darbodus ac yn benthyca unrhyw arian ychwanegol sy'n ofynnol gan Fwrdd Benthyca Gwaith Cyhoeddus;
- cadarnhawyd bod Llywodraeth Cymru, o dan y cynllun LGBTI blaenorol, a weithredodd am dair blynedd, yn rhoi arian i awdurdodau lleol gefnogi benthyca cyfalaf ar gyfer gwaith priffyrdd. Dros dair blynedd, roedd cyfanswm o £172m wedi'i fenthycu ar draws Cymru ar gyfer gwaith cynnal a chadw priffyrdd. Byddai'r taliad terfynol i awdurdodau lleol drwy'r RSG i wasanaethu'r costau benthyca'n cael ei wneud yn 2034/35;
- rhoddwyd gwybod bod y Cyngor ar hyn o bryd yn y broses o ddatblygu arolwg cyflwr llwybrau troed, yn debyg i'r Strategaeth Rheoli Asedau Priffyrdd, a fyddai'n cyd-fynd yn dda â gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau rheoli asedau priffyrdd i gynnwys pob cerbyttffordd;
- cadarnhawyd bod y Cyngor wedi cael ychydig iawn o gwynion neu hawliau iawndal mewn perthynas â damweiniau oherwydd cyflwr y llwybrau troed. Byddai ystadegau'n ymwneud â nifer yr hawliadau a wnaed yn erbyn yswiriant y Cyngor oherwydd damweiniau o ganlyniad i gyflwr llwybrau troed yn cael eu rhoi i aelodau;

- rhoddwyd gwybod y gallai cwmnïau cyfleustodau adfer wynebâu i lwybrau neu gerbyffyrdd yn amodol ar adferiad llawn yn digwydd o fewn chwe mis. Rhoddwyd gwybod i Aelodau y dylent gysylltu â'r Cyngor os oeddent yn dod yn ymwybodol o unrhyw ddamweiniau'n digwydd oherwydd adferiadau dros dro, neu os oeddent yn pryderu dros ansawdd unrhyw adferiadau. Fe wnaeth Swyddogion fonitro ansawdd y gwaith adfer yn rheolaidd, ac os nad oedd y gwaith yn cyrraedd y safon ofynnol, byddai'r Cyngor yn dirwyo'r cwmni cyfleustodau dan sylw;
- cadarnhawyd bod canllaw yn cael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru bob blwyddyn yn yr hydref i helpu awdurdodau lleol gyflwyno ceisiadau am arian ar gyfer prosiectau priffyrdd. Roedd y canllaw hwn yn cynnwys y meini prawf am geisiadau fel y cymeradwywyd gan Ysgrifennydd y Cabinet. Pe byddai ceisiadau'n bodloni'r meini prawf penodol, byddai Llywodraeth Cymru yna'n penderfynu ar lefel y cyllid y gallai ei rhoi i'r cynlluniau a gyflwynwyd. Nid oedd ffigur canran 'penodol' wedi'i ddyrannu ar gyfer pob awdurdod ar gyfer cyllid priffyrdd, penderfynwyd ar bob cais yn ôl ei rinweddau ei hun, tra bod dyraniadau untro eraill, fel y Grant Ailwampio Ffyrdd diweddar, yn cael eu rhannu'n defnyddio fformiwla y penderfynwyd arno ymlaen llaw;
- cadarnhawyd nad oedd y rhestr o ffyrdd yn Atodiad 'A' yn cynnwys ffyrdd 'A';
- disgrifiwyd gwahanol fathau o ddeunyddiau ailgylchu a ddefnyddiwyd gan y Cyngor yn ystod y blynyddoedd diweddar ar gyfer gwaith cynnal a chadw ffyrdd. Roedd y gwaith hwn yn arbrofol yn rhannol, i alluogi'r awdurdod i werthuso a fyddai'r deunyddiau hyn yn para yn y tymor hir ac yn cynhyrchu buddion ariannol i'r Cyngor drwy beidio â thalu am gost gwaredu gwastraff halogedig ac ati. Roedd rhai cynlluniau peilot wedi bod yn fwy llwyddiannus nag eraill, tra'r oedd yn rhy fuan i ddod i gasgliadau ar fuddion a gwydnwch tymor hir prosiectau mwy diweddar;
- cadarnhawyd y byddai Prif Swyddog Ariannol y Cyngor yn gallu cynghori aelodau ar derfynau benthyca'r Cyngor;
- rhoddwyd gwybod bod hawliau cyfreithiol i gau neu ddatgomiynu ffyrdd neu hawliau tramwy yn dod o fewn pwerau'r awdurdod lleol; a
- rhoddwyd gwybod os oedd yr Awdurdod yn dymuno ymgeisio am gyllid wedi'i ddyrannu ar gyfer gwelliannau llwybr beicio, byddai'r ffyrdd dan sylw eisoes wedi'u dynodi ar y map rhwydwaith gan fod llwybrau beicio a'r gwelliannau arfaethedig angen bodloni'r meini prawf penodol ar gyfer llwybrau o'r fath.

Yn ystod y drafodaeth, pwysleisiodd yr aelodau'r angen i gwmnïau cyfleustodau ymgysylltu a chyfathrebu'n fwy effeithiol gyda busnesau lleol a phreswylwyr wrth gynllunio i wneud y gwaith cynnal a chadw hanfodol, i'w galluogi i gynllunio ar gyfer unrhyw amhariad y gellir ei achosi ar eu busnes neu eu bywydau bob dydd. O ran ffordd y B4401 yn ardal Cynwyd, dangosodd y cynrychiolydd o Lywodraeth Cymru ei barodrwydd i drafod gyda'r aelod lleol a swyddogion os oedd modd cyrchu cyllid ar gyfer gwelliannau i'r ffordd benodol honno o amrywiaeth o ffyrdd ariannu sy'n ymwneud yn benodol â chludiant Llywodraeth Cymru, nawr fod cyllid cyfalaf ar gyfer cynlluniau gwelliant o'r fath wedi lleihau'n sylweddol.

Fe wnaeth y Cadeirydd, wrth ddiolch i Mr Dewi Rowlands a Swyddogion y Cyngor am ddod ac ateb cwestiynau aelodau, bwysleisio pwysigrwydd rhwydwaith priffyrdd y sir i'r sir gyfan, gan ddefnyddio'r gyfatebiaeth fod ffyrdd y sir yn cynrychioli'r

rhydweiliau a'r gwythiennau sy'n cludo gwaed i bob rhan o'r corff, i'w gadw'n iach ac yn weithredol. Felly roedd yn bwysig bod buddsoddiad sylweddol yn cael ei wneud ym mhob rhan o'r rhwydwaith i sicrhau bod y sir yn ffynnu ar bob lefel, boed yn economaidd, yn ddiwylliannol neu'n gymdeithasol. Er mwyn gwireddu hyn, roedd angen i strategaethau'r awdurdod lleol a chludiant Llywodraeth Cymru ategu at ei gilydd a chysylltu â'i gilydd.

Yn dilyn trafodaeth fanwl, fe wnaeth y Pwyllgor y canlynol:

PENDERFYNWYD yn amodol ar y sylwadau uchod -

- (i) derbyn yr adroddiad a'r atodiad; a
- (ii) chefnogi gwaith sy'n mynd rhagddo'n genedlaethol i ddatblygu cynlluniau rheoli asedau priffyrdd holl gynhwysol, a fyddai'n cynorthwyo pob rhanddeiliad i flaenoriaethu cyllid ar gyfer prosiectau priffyrdd a gwaith cynnal a chadw yn effeithiol, gyda'r bwriad o wireddu'r gwerth gorau am arian, yn ogystal â gwireddu nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Ar yr adeg hon (11.30 am) cafwyd egwyl o 20 munud.

Ailddechreuodd y cyfarfod am 11.50 a.m.

6 ADRODDIAD PERFFORMIAD Y CYNLLUN CORFFORAETHOL CHWARTER 4 - 2017/18

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Gyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol adroddiad y Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol (a gylchredwyd yn flaenorol), a gyflwynodd yr adroddiad diweddar cyntaf i Aelodau ar ddarparu Cynllun Corfforaethol 2017-22.

Yn amgaaedig i'r adroddiad cafwyd Crynodeb Gweithredol a oedd yn manylu ynghylch y llwyddiannau hyd yn hyn, ynghyd ag eithriadau allweddol (Atodiad 1), a'r adroddiad perfformiad chwarterol llawn ar gyfer pedwerydd chwarter 2017-18 a gynhyrchwyd gan System Rheoli Perfformiad Verto (Atodiad 2). Yn ystod ei gyflwyniad, tynnodd yr Aelod Arweiniol sylw'r Pwyllgor at y prif wahaniaeth yn y dull a gymerwyd tuag at adrodd ar berfformiad wrth ddarparu'r Cynllun Corfforaethol newydd o'i gymharu â'i ragflaenydd, sef cynnwys dau ddarn o sylwebaeth:

- Statws Perfformiad : a roddodd naratif ac asesiad ynghylch beth roedd y dangosyddion perfformiad yn ei ddweud ar hyn o bryd am y cymunedau; a
- Statws Cynnydd Rhaglen: a amlinellodd sut yr oedd prosiectau'n cefnogi pob blaenoriaeth yn datblygu

Roedd y rhaglen o waith i ddarparu'r Cynllun Corfforaethol yn dal yn ei gamau cynnar, felly byddai'r 'statws cynnydd rhaglen' yn adlewyrchu hyn. Wrth i brosiectau a sefydlwyd ddechrau gwireddu'r blaenoriaethau yn y Cynllun, byddai'r 'statws cynnydd rhaglen' yn yr adroddiad yn adlewyrchu hyn yn y pen draw, gyda lliw'r golofn yn troi'n 'wyrdd'. Roedd y golofn 'statws perfformiad' yn dangos perfformiad y Cyngor hyd yn hyn yn erbyn targedau a osodwyd ar gyfer darparu

bob blaenoriaeth. Er ei bod yn bosibl cael statws perfformiad 'gwael', ond statws cynnydd rhaglen cryf yn ystod cyfnod y Cynllun Corfforaethol, fe ragwelwyd, wrth i dymor y Cyngor fynd rhagddo, y byddai'r ddau statws yn cyfateb yn gadarnhaol i ddangos y byddai'r Cynllun yn cael ei ddarparu'n llwyddiannus. Byddai adroddiadau Crynodeb Gweithredol y dyfodol yn adroddiadau eithriadau, yn hytrach na naratif llawn ar berfformiad yn erbyn pob targed a dangosydd.

Aeth yr Aelod Arweiniol ymlaen i egluro bod dau fwrdd rhaglen, yr oedd eu haelodaeth yn cynnwys Aelodau Arweiniol, Cyfarwyddwr Corfforaethol a Phenaeithaid Gwasanaeth, wedi'u sefydlu at y diben o symud ymlaen â darparu'r pum blaenoriaeth gorfforaethol, a'r Cynllun ei hun yn y pen draw. Cafodd y ddau Fwrdd, y Bwrdd Cymunedau a'r Amgylchedd, a'r Bwrdd Pobl Ifanc a Thai, eu cadeirio gan Gyfarwyddwr Corfforaethol gydag un Bwrdd yn gyfrifol am symud ymlaen â darparu dwy o'r blaenoriaethau corfforaethol, tra bod yr un arall yn symud ymlaen â darparu'r tair. O'r pum blaenoriaeth gorfforaethol, roedd gan y statws perfformiad ar gyfer dwy o'r blaenoriaethau statws 'coch' ar gyfer gwella ar hyn o bryd. Dyma'r blaenoriaethau a oedd yn ymwneud â 'Chymunedau Cryf' a 'Phobl Ifanc' a oedd yn cynnwys darparu amrediad eang o brosiectau, rhai mewn partneriaeth â sefydliadau allanol, os oeddent am gael eu gwireddu. Felly nid oeddent yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth y Cyngor i'w cyflawni. Rhoddwyd trosolwg o'r prosiectau a oedd yn sail i bob blaenoriaeth gorfforaethol i'r Pwyllgor, gan yr Aelod Arweiniol. Rhoddwyd gwybod i Aelodau gan y Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol, yn ychwanegol at yr adroddiad a gynhyrchwyd gan Verto, bod y sylwebaeth Statws Perfformiad a'r Statws Cynnydd Rhaglen yn wybodaeth bwysig i Graffu ganolbwyntio arni wrth archwilio adroddiadau perfformiad Cynllun Corfforaethol y dyfodol, a phenderfynu ar ei raglen gwaith i'r dyfodol. Cadarnhaodd hefyd, os nad oedd aelodau'n gyfarwydd â'r system Verto, y byddai'n fodlon dangos iddynt sut y gallent ei defnyddio ar gyfer eu gwaith craffu.

Fe wnaeth y Cadeirydd dynnu sylw aelodau at y ffaith bod nifer o bynciau a gynhwyswyd yn y Cynllun Corfforaethol eisoes ar raglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor, roedd y rhain yn cynnwys y cynllun teithio cynaliadwy drafft a'r strategaeth rheoli fflyd drafft.

Gan ymateb i gwestiynau'r Aelodau, dywedodd yr Aelod Arweiniol, y Cyfarwyddwr Corfforaethol a Rheolwr y Tîm Cynllunio Strategol:

- fod y Cyngor a GwE yn gweithio'n agos gyda'r bwriad o wella ffigurau presenoldeb ysgol Yn ogystal, roedd prosiectau eraill yn cael eu datblygu i geisio rhoi sylw i absenoldebau ysgol, prosiectau fel y prosiect rhianta a'r prosiect cyrhaeddiad addysgol. Byddai effeithiolrwydd y prosiectau hyn yn cael eu hadrodd i aelodau maes o law fel rhan o adroddiad perfformiad y Cynllun Corfforaethol. Fodd bynnag, os oedd aelodau eisiau mwy o wybodaeth am y prosiectau, y gallent gysylltu â swyddogion yng Ngwasanaethau Addysg a Phlant;
- roedd data ar sgôr gwasanaeth band eang cyflym iawn ar gael ar sail etholaeth Seneddol y DU yn unig, ac nid ar sail ffin sirol. Gan fod nifer o etholaethau seneddol ar draws y sir, nid oedd un ffigur ar gael ar gyfer Sir Ddinbych. Cyn belled ag yr oeddent yn ymwybodol, nid oedd data ar gael ar argaeledd band eang mewn ardaloedd gwledig o'i gymharu ag ardaloedd

trefol, ond roedd yr Aelod Arweiniol am wneud ymholiadau ynghylch a oedd modd cyrchu data o'r math hwn;

- roedd data ar sgôr gwasanaeth band eang cyflym iawn ar gael ar sail etholaeth Seneddol y DU yn unig, ac nid ar sail ffin sirol. Gan fod nifer o etholaethau seneddol ar draws y sir, nid oedd un ffigur ar gael ar gyfer Sir Ddinbych fel uned gyfan. Cyn belled ag yr oeddent yn ymwybodol, nid oedd data ar gael ar argaeledd band eang mewn ardaloedd gwledig o'i gymharu ag ardaloedd trefol, ond roedd yr Aelod Arweiniol am wneud ymholiadau ynghylch a oedd modd cyrchu data o'r math hwn;
- roedd y Cyngor wedi cymeradwyo gweithdrefn rheoli coed yn ddiweddar, ac wedi cyhoeddi canllaw i'r cyhoedd, a oedd ar gael ar wefan y Cyngor;
- anelwyd y prosiect yn y Cynllun Corfforaethol yn ymwneud â phlannu coed mewn ardaloedd trefol penodol at wella lles preswylwyr yn yr ardaloedd hynny. Roedd yr Aelod Arweiniol am wirio gyda'r Gwasanaeth perthnasol a oedd cyllid wedi'i roi o'r neilltu o fewn y prosiect plannu coed ar gyfer costau cynnal a chadw'r coed yn y dyfodol;
- fel rhan o'r Flaenoriaeth Pobl Ifanc o fewn y Cynllun, roedd gwaith yn digwydd i dyfu busnesau lleol a cheisio denu cyflogwyr i'r sir a fyddai'n darparu cyfleoedd cyflogaeth a oedd yn talu'n dda i bobl ifanc, gyda'r bwriad o gadw pobl ifanc yn yr ardal;
- roedd 'Prosiect Sir Ddinbych yn Gweithio' wedi'i anelu at helpu pobl i gaffael y sgiliau hanfodol i'w helpu i gyflogaeth. Byddai prosiectau eraill yn golygu cael mentoriaid yn mynd i mewn i ysgolion i helpu disgyblion gyda chyngor gyrfaoedd a datblygu sgiliau meddal, fel sgiliau rhyngpersonol;
- roedd gwaith yn mynd rhagddo gyda Gwasanaeth Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata'r Cyngor i gynhyrchu bwletin penawdau dwyieithog chwarterol ar gynnydd wrth ddarparu'r Cynllun Corfforaethol. Byddai'r neges dorfol hon yn cael ei hanelu at y cyhoedd.

Awgrymodd y Cydlynnydd Craffu i aelodau y gall y Pwyllgor ddymuno gwahodd cynrychiolwyr Bwrdd y Rhaglen i gyfarfod y dyfodol i drafod gwaith eu Bwrdd, cylch gwaith a'r prosiectau roeddent yn gyfrifol am eu darparu fel ffordd o benderfynu ar y meysydd allweddol y mae'r Pwyllgor yn dymuno canolbwyntio arnynt yn y dyfodol.

Gofynnodd y Cadeirydd, ar gyfer dibenion eglurdeb, y dylai adroddiadau yn y dyfodol fod yn gyson yn eu cyfeiriadau at y Deyrnas Unedig neu Brydain Fawr, ac i beidio â chynnwys cymysgedd o'r ddau, a bod paragraffau naratif i gael eu hysgrifennu mewn dull clir a chyson er hwylustod.

Ar ddiwedd y drafodaeth:

PENDERFYNWYD, yn amodol ar y sylwadau uchod a darparu'r wybodaeth ofynnol, derbyn yr adroddiad ar berfformiad y Cyngor wrth gyflawni ei Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2017-2022, fel y mae ar ddiwedd Chwarter 4 o 2017-18.

7 ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2017-18

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau'r adroddiad (a gylchredwyd yn flaenorol) a gyflwynodd Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau

Cymdeithasol i'r Pwyllgor ar gyfer 2017-18. Eglurwyd ei fod yn ofyniad statudol i bob Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru gynhyrchu adroddiad blynyddol yn crynhoi eu hasesiad o effeithiolrwydd y Gwasanaeth i ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol yn ystod y flwyddyn, ac amlinellu'r blaenoriaethau ar gyfer gwelliant a nodwyd yn ystod y flwyddyn, a fyddai angen canolbwyntio arnynt yn y dyfodol.

Yn ystod ei chyflwyniad, talodd y Cyfarwyddwr deyrnged i ymrwymiad y gweithlu, y gwirfoddolwyr di-dâl a'r rhai a dalwyd, yr oedd eu hymroddiad wedi arwain at Adroddiad Blynyddol cadarnhaol yn gyffredinol. Tynnodd sylw aelodau at lwyddiannau allweddol y Gwasanaethau yn ystod y flwyddyn, a thynnwyd sylw at y meysydd a oedd angen rhagor o waith. Fe nododd y canllawiau ar gyfer cyflwyno Adroddiadau Blynyddol na ddylent ragori ar nifer benodol o eiriau, o ganlyniad, nid oedd wedi bod yn bosibl cynnwys pob agwedd ar waith gofal cymdeithasol i oedolion a gwasanaethau plant yn yr adroddiad. Er hynny, ar ôl adolygu'r holl dystiolaeth, roedd y Cyfarwyddwr yn hyderus bod Sir Ddinbych yn parhau i roi gwasanaethau cymdeithasol o ansawdd da i blant, oedolion a gofalwyr o'r crud i'r bedd, ac wrth wneud hynny, wedi cyflawni perfformiad rhagorol mewn meysydd a oedd yn bwysig i breswylwyr a chymunedau. Rhoddodd y Cyfarwyddwr wybod, tra bod deddfwriaeth yn ymwneud â gofal cymdeithasol wedi newid yn sylweddol dros y pum mlynedd diwethaf, roedd egwyddorion y ddeddfwriaeth yr hyn yr oedd gwasanaethau gofal cymdeithasol Sir Ddinbych yn ceisio eu cyflawni mewn gwirionedd, gan ddarparu canlyniadau cadarnhaol i unigolion yn seiliedig ar beth oedd yn bwysig iddyn nhw, a rhoi ymyrraeth ac ataliaeth gynnar ar yr adeg gywir i liniaru yn erbyn risg yr anghenion yn dwysáu a gofyn am wasanaethau mwy dwys. Er gwaethaf y pwysau sylweddol a wynebwyd gan wasanaethau gofal cymdeithasol plant ac oedolion yn ystod y flwyddyn, roedd y Gwasanaeth wedi perfformio'n dda, ond fel bob amser, roedd mwy i'w wneud, yn enwedig yn sgil y demograffig cynyddol, yr heriau ariannol a'r pwysau a oedd o'u blaenau.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr adroddiad rhagorol gan Estyn a ddaeth i law yn gynharach eleni, ar Wasanaethau Addysg a Phlant y sir. Cyfeiriodd hefyd at y ffaith y byddai adroddiad ar 'Ddarparu Gofal Seibiant ar draws Sir Ddinbych', sy'n canolbwyntio'n bennaf ar argaeledd y cyfleusterau seibiant i ysgafnau'r baich ar ofalwyr, yn unol ag amcanion Strategaeth Gofalwyr y Cyngor, yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau ym Medi 2018.

Wrth ymateb i gwestiynau'r Aelodau, fe wnaeth y Cyfarwyddwr a'r Pen Reolwr: Gwasanaethau Cymorth:

- roi gwybod bod cefnogaeth i ofalwyr yn cael ei rhoi mewn amrywiaeth o ffyrdd gwahanol yn dibynnu ar eu hanghenion h.y. pan fyddant gartref, mewn cartref preswyl/nyrsio, mewn gwesty neu mewn lleoliad arall oddi wrth eu hamgylchedd arferol. Roedd gofalwyr â'r hawl i gael asesiad anghenion gofalwyr, ond nid yn gorfod cael un. Roedd yr Awdurdod yn gweithio'n agos iawn gyda Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru (NEWCIS), mewn ymgais i ddeall pryderon gofalwyr, y mathau o wasanaethau sy'n ofynnol ganddynt a sut y gellid gwella gwasanaethau i ofalwyr;
- rhoddwyd gwybod bod gwybodaeth am amcanion a goblygiadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 wedi'i chyflwyno i

ofalwyr drwy amrywiaeth o sianeli gwahanol e.e. hyfforddiant/gweithdai, digwyddiadau rhannu gwybodaeth a chyfathrebu grwpiau gwirfoddol a chymunedol, gan fod y Cyngor wedi sylweddoli nad oedd pob gofalwr yn gallu dod i ddigwyddiadau oherwydd eu dyletswyddau gofalu;

- cadarnhawyd bod y Cyngor yn gweithio'n agos gydag asiantaethau gofal cartref i archwilio'r canlyniadau unigol i'w cyflawni wrth gomisiynu pecynnau gofal cartref. Roedd y fframwaith rhanbarthol dros gomisiynu gofal cartref wedi'i adnewyddu'n ddiweddar, ac roedd gan y Cyngor restr nawr o ba asiantaethau gofal cartref a oedd eisiau darparu gwasanaethau, yn cynnwys gwasanaethau gofal gyda chymorth, yn Sir Ddinbych;
- rhoddwyd gwybod y byddai gweithiwr meddygol proffesiynol gyda chymwysterau addas yn gorfod ardstio bod claf yn feddygol addas i gael ei ryddhau o'r ysbyty. Nid oedd asesiadau pecyn gofal rhyddhau cleifion o'r ysbyty bob amser yn cael eu gwneud gan weithwyr cymdeithasol, roeddent yn cael eu perfformio gan y gweithiwr proffesiynol gyda'r cymwysterau mwyaf addas, yn dibynnu ar anghenion a gofynion y claf unigol. Unwaith y cytunwyd ar becyn gofal, byddai angen cymryd camau i gomisiynu'r gwasanaeth(au) a oedd yn ofynnol i'r unigolyn. Lle bynnag y bo'n bosibl, roedd pecynnau gofal yn cael eu hanelu at gefnogi'r unigolyn i ailennill gymaint o annibyniaeth â phosibl er mwyn gwella eu hansawdd o fywyd;
- cytunwyd bod diogelu'n gyfrifoldeb ar bawb, yn aelodau a swyddogion ar draws pob gwasanaeth fel ei gilydd. Mewn ymgais i dynnu sylw at gyfrifoldebau unigol holl staff y Cyngor mewn perthynas â Diogelu, roedd rhaglen hyfforddi orfodol wedi'i chyflwyno ar draws yr awdurdod yn ystod 2017-18; a
- chadarnhawyd os oedd nam ar alluedd meddyliol defnyddwyr gwasanaeth i wneud penderfyniadau gwybodus am wasanaethau, gallai'r Cyngor/aelodau teulu/gofalwyr ymgeisio am orchmynion Llys Gwarchod

Yn ystod y drafodaeth, cyfeiriodd aelodau at y pwysau a wynebwyd gan wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol oherwydd bod pobl yn byw yn hirach, a'r lefelau cynyddol o broblemau'n gysylltiedig ag iechyd meddwl a oedd yn cael eu cofnodi, hyd yn oed gyda disgyblion oedran ysgol gynradd. Fe wnaethant hefyd nodi llwyddiant y Gwasanaeth Un Pwynt Mynediad.

Roedd y Swyddogion am wneud ymholiadau o ran yr oedi a brofwyd wrth roi cardiau hamdden am ddim i ofalwyr ifanc, ac i gadarnhau bod Meddygon Teulu ledled y sir yn atgyfeirio cleifion at Wasanaethau Hamdden y Sir, yn sgil y pryderon a godwyd, na chyfeiriwyd at Lanelwy neu Langollen yn yr adroddiad.

Ar ddiwedd y drafodaeth:

PENDERFYNWYD:

- yn amodol ar y sylwadau uchod a darparu'r wybodaeth ofynnol, i gadarnhau bod yr adroddiad wedi rhoi cyfrif clir o berfformiad yn ystod 2017-18; a*
- chadarnhau bod y meysydd hynny a oedd naill ai'n tanberfformio neu o bryder, eisoes wedi'u rhestru ar raglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor craff am ragor o archwiliad*

8 RHAGLEN WAITH CRAFFU

Cyflwynodd y Cydlynnydd Craffu adroddiad (a gylchredwyd yn flaenorol) yn gofyn i'r Aelodau adolygu rhaglen waith y Pwyllgor a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion perthnasol.

Roedd copi o "ffurflen gynnig Aelodau" wedi'i chynnwys yn Atodiad 2. Gofynnodd y Cydlynnydd Craffu i unrhyw gynigion gael eu cyflwyno iddi hi. Roedd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet wedi'i chynnwys yn Atodiad 3 ac roedd tabl gyda chrynodeb o benderfyniadau diweddar y Pwyllgor a gwybodaeth am y cynnydd eu rhoi ar waith wedi ei gynnwys yn Atodiad 4.

Pwysleisiodd y Cadeirydd a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol pam ei bod yn bwysig i aelodau fynychu pob cyfarfod o'r Grwpiau Herio Gwasanaethau yr oeddent wedi eu penodi gan y Pwyllgor fel ei gynrychiolydd arnynt, ynghyd â phwysigrwydd adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ganfyddiadau'r cyfarfodydd hynny. Os nad oedd y cynrychiolydd yn gallu mynychu'r cyfarfod dylent ddwyn hyn i sylw Cadeirydd y Pwyllgor mor fuan a phosib er mwyn i aelod arall gael ei benodi i fynychu yn eu lle. Er gwybodaeth i aelodau roedd rhestr o gynrychiolwyr y Pwyllgor ar y Grwpiau Herio Gwasanaethau, ynghyd a chopi o amserlen cyfarfodydd y Grwpiau ar gyfer 2018-19 wedi ei anfon at aelodau'r Pwyllgor fel rhan o'r ddogfen 'Diweddariad Gwybodaeth'.

PENDERFYNWYD yn amodol ar yr uchod, y dylid cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.

9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU

Nid oedd unrhyw adborth i'w gyflwyno.

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd

Dywedodd y Cadeirydd fod yr eitem fusnes nesaf yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol ac yn dilyn hynny:

PENDERFYNWYD gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol, dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 14 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.

10 ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYNLLUN BUSNES GOFAL IECHYD CEFNDY 2017/18

Nid oedd yr Aelod Arweiniol dros Les ac Annibyniaeth wedi gallu dod i'r cyfarfod, ond fe wnaeth yr Aelod Arweiniol dros Gyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol ddod yn ei lle.

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Gyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol yr adroddiad cyfrinachol gan y Rheolwr Gwasanaeth Masnachol - Cefndy a'r Rheolwr

Gwasanaethau Gweithredol (a gylchredwyd yn flaenorol), a gyflwynodd y Pwyllgor gyda gwybodaeth am berfformiad Gofal Iechyd Cefndy yn ystod 2017-18 a'i gynllun busnes ar gyfer 2018-22.

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor er mwyn iddo archwilio perfformiad Gofal Iechyd Cefndy, a'r cyfeiriad strategol yn y dyfodol, yn dilyn diddymiad y Bwrdd Ymgynghorol a oedd wedi goruchwyllo ei waith yn y gorffennol. Rhoddwyd gwybod i Aelodau mai pwrpas y busnes oedd "darparu cyflogaeth ystyrion a oedd yn talu'n dda, i aelodau dan anfantais y gymuned". Byddai colli cyllid Dewis Gwaith yr Adran Gwaith a Phensiynau 31 Mawrth 2019, yn effeithio ar sefyllfa ariannol Cefndy yn y dyfodol. Gyda'r bwriad o leihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â cholli cyllid yr Adran Gwaith a Phensiynau, roedd Gwasanaethau Cymorth Cymunedol y Cyngor wedi ysgwyddo rheolaeth o Wasanaethau Cyfarpar Cymunedol Integredig Ledled Gwent (GWICES0, menter gymdeithasol a oedd yn cynnwys pum awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn ardal Casnewydd, a weithredodd ar sail debyg i Ofal Iechyd Cefndy. Drwy weithredu'r ddwy fenter, gallai'r Gwasanaethau Cymorth Cymunedol leihau costau gweinyddu diangen wrth ehangu ei gynnyrch a photensial i gynhyrchu digon o incwm i barhau i ddarparu cyflogaeth werthfawr, ystyrion, sy'n talu'n dda i unigolion dan anfantais ar sail niwtral o ran cost.

Gan ymateb i gwestiynau aelodau, fe wnaeth yr Aelod Arweiniol, Pennaeth y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol a Rheolwr Gwasanaethau Masnachol Cefndy:

- ddisgrifio'r farchnad gystadleuol y gweithredodd Cefndy o'i mewn, yn enwedig yr anawsterau a brofwyd wrth gystadlu yn erbyn mewnfurion rhatach o economïau sy'n datblygu ar draws y byd;
- cadarnhawyd bod costau gweithredu Cefndy fymryn yn uwch na nifer o'i gystadleuwyr, gan mai ei flaenoriaeth oedd cadw pobl dan anfantais mewn cyflogaeth gynhyrchiol yn hytrach na hawlio budd-daliadau;
- rhoddwyd gwybod bod Gofal Iechyd Cefndy yn adran o fewn Gwasanaethau Cymorth Cymunedol, o ganlyniad, ni chaniatawyd iddo wneud elw sylweddol neu ymgeisio am gyllid/buddsoddiad menter gymdeithasol;
- rhoddwyd gwybod nad oedd unrhyw weithiwr wedi'i wneud yn ddi-waith yn ystod 2017-18, roedd y gostyngiad mewn niferoedd gweithwyr oherwydd ymddeoliad, gadael ar gyfer cyflogaeth arall ac ati;
- cadarnhawyd bod Gofal Iechyd Cefndy'n tendro ar gyfer contractau newydd bob mis;
- rhoddwyd gwybod bod nifer o weithwyr Cefndy wedi bod gyda'r 'cwmni' am 30 mlynedd neu fwy, a oedd yn destament i werth cymunedol y busnes. Yn debyg i bob gweithiwr y Cyngor, roedd y rhai a weithiodd yng Nghefndy yn destun telerau ac amodau cyflogaeth staff llywodraeth leol, ac felly, â'r hawl i gynllun pensiwn a salwch, sydd yn eu tro yn rhoi diogelwch ariannol tymor hir iddynt;
- rhoddwyd gwybod bod cyfranogiad Cefndy gyda GWICES wedi agor cyfleoedd marchnata newydd a mynediad at fforymau marchnata, a fyddai gobeithio o fudd i'r busnes yn y tymor hwy, drwy ei alluogi i ehangu ac amrywio ei fusnes, gyda'r bwriad o ddiogelu ei gynaliadwyedd tymor hwy;
- cadarnhawyd bod y buddsoddiad a wnaed bum mlynedd yn ôl mewn peirianeg plygu arbenigol wedi gwella gallu gweithgynhyrchu'r busnes, a byddai o fudd i'r gwaith a gynhaliwyd mewn partneriaeth â GWICES;

- amlinellwyd aelodaeth y bwrdd ymgynghorol blaenorol, gan roi gwybod bod y busnes wedi'i sefydlu'n wreiddiol gan yr hen Gyngor Sir Clwyd, a'i drosglwyddo i Gyngor Sir Ddinbych wrth adsefydlu llywodraeth leol, oherwydd bod lleoliad ei ffatri yn y Rhyl. Fe sefydlodd Cyngor Sir Ddinbych y bwrdd ymgynghori i fonitro perfformiad y busnes ac ati, oherwydd ei fod yn rhoi cymhorthdal i'r busnes. Roedd y cymhorthdal hwnnw wedi dod i ben rai blynyddoedd yn ôl, felly gwnaed penderfyniad gan y Pennaeth Gwasanaeth, o dan bwerau a ddirprwywyd iddo, i ddiddymu'r Bwrdd a cheisio Craffu i fonitro perfformiad y busnes yn y dyfodol;
- cadarnhawyd bod y Rheolwr Gwasanaeth Masnachol a'r Rheolwr Gwasanaethau Gweithredol yn gyfrifol am redeg y busnes o ddydd i ddydd, ac unrhyw benderfyniadau gweithredol a busnes a gymerwyd;
- rhoddwyd gwybod y rhagwelwyd y byddai buddion i Ofal Iechyd Cefndy gyda'r Gwasanaeth Cymorth Cymunedol yn cymryd rheolaeth o GWICES yn cael eu gwireddu'n llawn yn 2019, pan fyddai cyllid Dewis Gwaith yr Adran Gwaith a Phensiynau'n dod i ben; a
- rhoddwyd gwybod bod cymhareb y gweithwyr dan anfantais i weithwyr eraill yng Nghefndy yn 70:30. Roedd y gymhareb hon yn cynnwys staff rheoli a gweithgynhyrchu wrth i'r busnes ddatblygu llwybrau gyrfu i'w staff, i'w galluogi i wireddu eu potensial llawn

Fe longyfarchwyd y Cyngor gan aelodau pwyllgor ar sicrhau bod y busnes yn parhau i weithredu at y diben o ddiogelu canlyniadau bywyd cadarnhaol i'w weithwyr. Awgrymodd Aelodau y dylai pob cynghorydd sir gael eu gwahodd i ddod i Ofal Iechyd Cefndy i weld y gwaith a wneir yn y ffatri, a bod Tîm Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata'r Cyngor yn cael gwybod am yr ymweliad i alluogi bod datganiad i'r wasg neu i'r cyfryngau'n cael ei gyhoeddi, gan dynnu sylw at y busnes a'i ddiben. Felly:

PENDERFYNWYD yn amodol ar y sylwadau uchod

- (i) derbyn yr Adroddiad Blynyddol ar Berfformiad Gofal Iechyd Cefndy yn ystod 2017-18 (Atodiad 1) a'i Gynllun Busnes ar gyfer 2018-2022 (Atodiad 2);*
- (ii) cyflwyno Adroddiad Perfformiad Blynyddol ac Adroddiad Blynyddol Cefndy i'r Pwyllgor bob blwyddyn, gydag adroddiad perfformiad hanner blwyddyn cael ei roi i'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu er gwybodaeth, oni bai bod amgylchiadau'n gofyn am adroddiad cynharach i'r Pwyllgor; a*
- (iii) threfnu ymweliad â Gofal Iechyd Cefndy i'r holl gynghorwyr sir, er mwyn iddynt ymglyfarwyddo â'r busnes a'i amcanion*

Daeth y cyfarfod i ben am 2.00pm.

| | |
|---------------------------------|--|
| Adroddiad i'r: | Pwyllgor Craffu Perfformiad |
| Dyddiad y cyfarfod: | 27 Medi 2018 |
| Swyddog/Aelod Arweiniol: | Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio / Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau |
| Awdur yr Adroddiad: | Swyddog Cynllunio a Pherfformiad |
| Teitl: | Adolygiad o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol, Medi 2018 |

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Y wybodaeth ddiweddaraf am yr adolygiad o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y newidiadau arfaethedig i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor Archwilio Perfformiad yn nodi'r dileadau, yr ychwanegiadau a'r newidiadau i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol (atodiad 1), ac yn cael cyfle i wneud sylwadau. Mae'r Gofrestr Risg Gorfforaethol, yn llawn, i'w gweld yn atodiad 2. Caiff y Gofrestr Risg Gorfforaethol ei chyflwyno yng Nghyfarfod Briffio'r Cabinet er mwyn cytuno arni ar 15 Hydref 2018.

4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Mae'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn galluogi'r Cyngor i reoli tebygolrwydd ac effaith y risgiau y mae'n eu hwynebu drwy werthuso effaith unrhyw gamau a gymerir ar hyn o bryd i liniaru risg, a chofnodi dyddiadau cau a chyfrifoldebau am gamau gweithredu pellach a ddylai sicrhau gwell rheolaeth.

4.2 Y Tîm Gweithredu Corfforaethol a'r Cabinet sydd wedi datblygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol, a nhw sydd berchen arni. Mae'r broses ar gyfer adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol fel a ganlyn:

- Anogir gwasanaethau i adolygu eu cofrestr risg ddwywaith y flwyddyn (yn unol â'r fethodoleg Rheoli Risg Gorfforaethol) cyn pob adolygiad o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol, a hefyd cyn eu cyfarfodydd Herio Perfformiad y Gwasanaeth. Bydd unrhyw broblemau neu ymholiadau yn cael eu trafod yn y cyfarfodydd Herio Perfformiad y Gwasanaeth.

- Bydd y Tîm Cynllunio Strategol yn dadansoddi holl gofrestrau risg y gwasanaethau i ganfod unrhyw risgiau sy'n arwyddocaol yn gorfforaethol neu unrhyw themâu risg sy'n ymddangos ar draws y gwasanaethau.
 - Bydd y wybodaeth ddiweddaraf am y risgiau corfforaethol cyfredol yn cael ei chasglu gan berchnogion y risg, a bydd diweddariadau ar gamau gweithredu i liniaru'r risg yn cael eu casglu gan y rhai sy'n cyflawni'r camau hynny.
 - Cynhelir cyfarfodydd gyda pherchnogion risg, gan gynnwys Aelodau, yng nghyfarfodydd y Tîm Gweithredu Corfforaethol a'r Cabinet i drafod y risgiau y maent yn arwain arnynt. Ystyrir a yw'r risg yn parhau, a yw'r sgôr yn gywir, ac a oes angen cynnwys unrhyw risgiau newydd o dan eu hawdurdodaeth.
- 4.3 Bydd y Tîm Gweithredu Corfforaethol a'r Cabinet yn adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn ffurfiol ddwywaith y flwyddyn. O hyn ymlaen, bydd yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn trafod y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn anffurfiol ddwywaith y flwyddyn.
- 4.4 Bydd unrhyw risgiau newydd arwyddocaol neu risgiau sy'n cynyddu yn cael eu dwyn i sylw'r Tîm Gweithredu Corfforaethol (drwy'r Tîm Cynllunio Strategol) pan fyddant yn cael eu canfod. Yna bydd y Tîm Gweithredu Corfforaethol a'r Cabinet yn penderfynu a ddylid cynnwys y risg honno ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol.
- 4.5 Yn dilyn pob adolygiad ffurfiol o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol (ddwywaith y flwyddyn), bydd y ddogfen ddiwygiedig yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad. Mae'r diweddariad penodol hwn yn dod cyn ei gyflwyno i'r Cabinet, ac mae'r risgiau a gynhwysir ynddo ar ffurf drafft nes y byddant wedi'u cytuno'n ffurfiol gan y Cabinet.
- 4.6 Bydd y camau gweithredu a nodir er mwyn delio â risgiau corfforaethol yn cael eu cynnwys yn y Cynlluniau Gwasanaeth (lle bo'n addas), sy'n galluogi Aelodau'r Pwyllgor Craffu Perfformiad i fonitro'r cynnydd. Dylid amlygu unrhyw faterion sy'n ymwneud â pherfformiad mewn perthynas â chyflawni'r camau gweithredu hyn fel rhan o broses Herio Perfformiad y Gwasanaeth.
- 4.7 Mae gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor yn darparu sicrwydd annibynnol o ran effeithiolrwydd y gweithdrefnau a'r dulliau rheoli mewnol sydd wedi'u sefydlu er mwyn lliniaru risgiau yn y Cyngor. Mae hefyd yn cynnig her annibynnol i sicrhau bod egwyddorion a gofynion rheoli risg yn cael eu defnyddio'n gyson ym mhob rhan o'r Cyngor. Mae'r Gwasanaethau Archwilio Mewnol hefyd yn defnyddio gwybodaeth o gofrestrau risg ein gwasanaethau a'r gofrestr risg gorfforaethol er mwyn penderfynu ar eu rhaglen waith i'r dyfodol.
- 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**
